# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Craigfelen Alpha Tots**

**Ysgol Gynradd Craigfelen**
**Woodside Crescent**
**Clydach**
**Abertawe**
**SA6 5DP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**21 Ionawr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Craigfelen Alpha Tots ym mis Chwefror 2018 i ofalu am hyd at 20 o blant. Alison Williams yw'r person cofrestredig, a Bethan Bibbs yw'r person â chyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal cofleidiol yn ystafell ddosbarth y dosbarth meithrin yn Ysgol Craigfelen i blant rhwng 3 a 4 oed o 12.45pm i 3.15pm. Cynigir gofal drwy gyfrwng y Saesneg ac nid yw'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Ar y cyfan, mae'r plant yn gartrefol ac yn gysurus gan eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd a'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae'r staff yn brofiadol wrth weithio gyda phlant ac yn diwallu anghenion y plant mewn ffordd fedrus. Mae'r arweinwyr wedi datblygu cydberthnasau da â'r rhieni/gofalwyr ac maent yn datblygu eu sgiliau mewn perthynas â rhedeg gwasanaeth gofal.

**Gwelliannau**

Dyma oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth.

### 2. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas ag annibyniaeth y plant, cofnodion, contractau a chaniatadau rhieni. Mae manylion y rhain yng nghefn yr adroddiad.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r plant sy'n mynychu Craigfelen Alpha Tots yn gartrefol ac yn gysurus gan eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd a'r staff sy'n gofalu amdanynt. Gallant wneud penderfyniadau addas ynghylch sut i dreulio eu hamser a pha adnoddau y maent yn eu defnyddio. Mae'r plant yn cael budd o gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n cefnogi eu datblygiad yn gyffredinol.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gall y plant ddewis sut i dreulio eu hamser. Maent yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn gwybod y caiff eu llais ei glywed.

Gwnaeth y plant symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau pen bwrdd a oedd wedi'u gosod ar eu cyfer. Roeddent yn dewis pa weithgaredd roeddent am gymryd rhan ynddynt ac am ba hyd. Pan roedd y plant wedi cael digon o weithgareddau pen bwrdd, gwnaethant chwilio am deganau ac adnoddau a oedd o ddiddordeb iddynt. Er enghraifft, pan roedd un plentyn yn penderfynu gyda beth yr hoffai chwarae nesaf, gofynnodd y staff a oedd am chwarae gyda'r bwyd chwarae rôl. Atebodd y plentyn yn hyderus drwy ddweud *"No!"*, a oedd yn dangos ei fod yn teimlo'n hyderus i fynegi ei ddymuniadau. Yn fuan ar ôl hynny, newidiodd y plentyn ei feddwl ac roedd y staff wedi cydnabod ei benderfyniad.

Mae gan y plant lais clir.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn gartrefol ac yn gysurus gan eu bod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd ac yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni eu gofalwyr.

Roedd y plant yn sgwrsio'n rhydd ymhlith ei gilydd a gyda'r staff sy'n dangos eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn gysurus. Ar ôl rhai munudau, daeth un o'r plant atom i ddangos model o law yr oedd wedi'i greu o does chwarae ac roedd yn trafod y wisg 'George Pig' yr oedd yn ei gwisgo. Roedd hyn yn dangos ei fod yn teimlo'n ddigon diogel i siarad ac ymgysylltu ag ymwelwyr yn ogystal â'r plant eraill ac aelodau eraill o'r staff. Roedd un o'r plant yn mynychu'r clwb cofleidiol am y tro cyntaf, ond oherwydd ei fod yn adnabod y plant eraill a'r staff, roedd yn ddigon hapus ac roedd yn brysur ac yn cymryd rhan drwy gydol y sesiwn. Roedd y plant yn gwybod ble i ddod o hyd i'r teganau a'r adnoddau roeddent am chwarae â nhw ac roeddent yn ddigon hyderus i gael gafael arnynt eu hunain.

Mae'r plant yn gartrefol, hapus a chysurus iawn.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad. Ar y cyfan, maent yn rhannu, yn cydweithio ac yn cymryd eu tro gyda'i gilydd.

Roedd y plant yn helpu ei gilydd wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Er enghraifft, roedd dau blentyn wedi gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i'r anifeiliaid er mwyn cwblhau jig-so. Meddai un plentyn,*"Me and X are sharing,"* wrth gyfeirio at y pos yr oeddent yn ei wneud. Ymatebodd y staff,

"*Yes, it's good to share, isn't it?"*

Dangosodd y plant ddiddordeb yn yr hyn yr oedd pawb yn ei wneud. Er enghraifft, gwnaethant edrych ar luniau ei gilydd a gofyn cwestiynau am yr hyn roeddent wedi'i greu. Roedd y rhan fwyaf o'r plant wedi helpu i dacluso'r teganau a oedd yn dangos eu bod yn barod i helpu ac roeddent yn dysgu am y cyfrifoldeb o roi pethau i gadw pan oeddent wedi gorffen eu defnyddio. Roedd un plentyn yn fwy amharod i helpu a dilyn cyfarwyddiadau na'r gweddill. Mewn ymateb i'r plentyn hwnnw, meddai plentyn arall, *"Santa's listening you know!"* er mwyn ceisio ei annog i wrando a helpu.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ag eraill.

**1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?**

Dangosodd y plant ddiddordeb yn y gweithgareddau maent yn cymryd rhan ynddynt.

Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau pen bwrdd a oedd wedi'u gosod ar eu cyfer.  Roedd y rhan fwyaf o'r plant wedi cynnal diddordeb yn y gweithgareddau am gyfnod da o amser. Er enghraifft, gwnaeth dau blentyn dreulio cryn dipyn o amser yn creu rhestr dymuniadau Nadolig. Gwnaethant ddewis teganau a oedd yn peri diddordeb iddynt o'r catalog, yn eu torri allan ac yn eu gludo i'w rhestr. Roedd y plant yn siarad am yr anrhegion roeddent yn gobeithio eu cael ar gyfer y Nadolig wrth iddynt ystyried yr eitemau ar bob tudalen. Yn ddiweddarach, gwrandawodd y plant yn astud wrth i aelod o'r staff ddarllen stori 'Harry the Frog' yn uchel. Gwnaethant ymuno â chanu caneuon yn frwdfrydig, gan gynnwys 'Five Little Reindeer'.

Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleoedd chwarae a dysgu sydd ar gael iddynt yn addas.

**1.5  Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau, yn cynnwys chwarae dewisol dirwystr, chwarae anffurfiol a chwarae wedi'i arwain ganddynt eu hunain. Maent yn cael budd o rai cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Dangosodd y plant eu bod yn gyfarwydd â threfn y gwasanaeth a ble y gallant gael gafael ar deganau eraill neu'r cyfleusterau. Er enghraifft, gwnaethant setlo'n gyflym wrth chwarae gyda'r gweithgareddau pen bwrdd a oedd wedi'u gosod ar eu cyfer, ac roedd y rhain yn cynnwys tasg torri a gludo, gwneud siapiau gyda'r toes chwarae a phosau jig-so. Roedd y plant hefyd yn gwybod y byddent fel arfer yn cael amser i chwarae yn yr awyr agored, er nad oedd hyn wedi digwydd yn ystod yr ymweliad, gwrando ar stori a chael byrbryd cyn i'r sesiwn ddod i ben. Gwelsom fod y plant yn defnyddio'r toiled yn annibynnol ar eu pen eu hunain ac yn golchi eu dwylo cyn bwyta byrbryd. Roedd y plant yn cael ffrwythau wedi'u torri i'w bwyta a diod o laeth, er nad oeddent yn helpu i baratoi hwn. Fodd bynnag, roedd rhai ohonynt wedi rhoi eu poteli llaeth i'w ailgylchu pan oeddent wedi gorffen yn annibynnol, heb fod neb yn gofyn iddynt wneud hynny. Roedd lluniau o'r plant yn cymryd rhan mewn

gweithgareddau yn dangos eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n gyfannol drwy brofiadau gwahanol.

Mae'r plant yn datblygu'n briodol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff sy'n gweithio yn y clwb cofleidiol yn weithwyr proffesiynol profiadol a medrus gan eu bod yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r ffordd y mae'r plant yn dysgu ac yn datblygu. Datblygwyd cydberthnasau da rhwng y staff a'r plant.

### Ein canfyddiadau

#### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac yn eu rhoi ar waith.

Roedd y staff wedi cyflawni hyfforddiant cymorth cyntaf, hylendid bwyd ac amddiffyn plant. Dangos y staff eu bod yn deall y gweithdrefnau diogelu plant yr oedd yn rhaid eu dilyn os oedd ganddynt bryderon am blentyn a bod y rhain yn wahanol i weithdrefnau'r ysgol. Roedd y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn perthynas â'r 'Ddyletswydd Atal'. Roedd y staff wedi cael llofnodion y rhieni mewn perthynas â rhoi meddyginiaeth ac wedi cofnodi'r dogn a roddir, er nad oedd y dogn blaenorol wedi'i gymryd. Roedd y rhieni yn cael gwybod pan oedd eu plentyn wedi cael damwain a gofynnwyd iddynt yn briodol i lofnodi'r ffurflenni. Cafodd driliau tân eu hymarfer yn rheolaidd gyda'r plant fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Gwnaeth y staff annog deiet iach drwy ddarparu ffrwythau a dŵr neu laeth i'w yfed.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol er mwyn helpu i gadw'r plant yn ddiogel.

#### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae gan y staff ddealltwriaeth sicr o'r polisi rheoli ymddygiad ac yn defnyddio dulliau cadarnhaol i hyrwyddo ymddygiad da.

Creodd y staff amgylchedd cysurus a chyfeillgar drwy siarad â'r plant yn dyner a thrwy ddangos diddordeb gwirioneddol ynddynt pan oeddent yn siarad. Cafodd hyn ei ddangos pan ofynnodd y staff i'r plant am y ffordd roeddent yn dathlu'r Nadolig yn eu cartref a beth roeddent yn gobeithio ei gael gan Siôn Corn eleni, ac yna esboniodd y staff beth oedden nhw am ei gael. Gwnaeth y staff annog y plant i feddwl a gwneud pethau drostynt eu hunain yn hytrach na'r staff yn gwneud pethau drostynt ac roedd hyn yn helpu'r plant i fod yn fwy annibynnol. Er enghraifft, clywsom sawl achlysur lle roedd staff yn dweud, "*I'm not clever like you. Can you show me how to do this?*" Roedd y staff yn canmol ac yn defnyddio gwobrau i annog hunan hyder y plant ac i gydnabod pan oedd y plant wedi dangos ymddygiad cadarnhaol; gwnaethant ddefnyddio ymadroddion fel 'good sharing' a 'good tyding' er mwyn tynnu sylw at yr ymddygiad da y gwnaeth y plant ei ddangos a chynnig sticeri i'r rhai a oedd wedi helpu. Atgoffodd y staff y plant o'r 'thinking spot' er mwyn atal ymddygiadau negyddol a ffordd o annog y plant i fyfyrio ar eu gweithredoedd; roedd sôn am dreulio amser yn y 'thinking spot' yn effeithiol o ran dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad plentyn.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n fedrus.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn strwythuro'r sesiynau i gynnwys cyfleoedd chwarae rhydd a gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion fel bod gan y plant ddewis a'u bod yn cael eu hysgogi.

Rhoddodd y staff drefn ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn cael budd o ffurfiau gwahanol o chwarae a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Er enghraifft, ar ddechrau'r sesiwn, gosododd y staff amrywiaeth o adnoddau er mwyn i'r plant eu defnyddio ac roedd y plant yn gallu symud yn rhydd rhyngddynt. Yn ddiweddarach, gwnaeth y plant dreulio amser yn chwarae yn yr awyr agored, ac yna cawsant fyrbryd a stori neu ganu. Roedd y staff yn ymatebol i arwyddion y plant, er enghraifft, yn cydnabod pan oedd angen i blentyn ddefnyddio'r toiled, ac roeddent yn darparu cymorth yn gyflym pan fo angen. Dywedodd y staff eu bod yn cynllunio un gweithgaredd wedi'i arwain gan oedolyn yr wythnos ac roedd hwn yn dueddol o fod yn weithgaredd crefft a oedd yn ymwneud â thema neu dymor. Roedd y staff wedi creu llyfryn arddangos a oedd yn cynnwys lluniau er mwyn dangos yr amrywiaeth o weithgareddau yr oedd y plant wedi cymryd rhan ynddynt. Er enghraifft, paentiadau swigod a gweithgareddau chwarae sy'n gwneud llanast eraill a oedd yn cynnwys ewyn eillio a mousse siocled. Roedd y lluniau hefyd yn dangos fod y plant yn cymryd rhan mewn 'welly walks' o amgylch tir yr ysgol ac roeddent wedi cwblhau amrywiaeth o weithgareddau crefft drwy ddefnyddio deunyddiau naturiol megis dail a brigau yr oeddent wedi'u casglu ar hyd y ffordd. Nid oedd y staff wedi dechrau olrhain na chofnodi datblygiad y plant er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gweithgareddau. Fodd bynnag, roedd gan y staff gwybodaeth gadarn am alluoedd y plant gan eu bod yn gweithio gyda nhw yn y dosbarth meithrin yn y bore. .

Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn fedrus.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn ystafell ddosbarth pwrpasol y dosbarth meithrin ar dir Ysgol Gynradd Craigfelen. Mae'r teganau, yr adnoddau a'r cyfarpar felly yn hollol addas ar gyfer eu hanghenion a'u cam datblygu. Un o fanteision y lleoliad yw ei fod yn gyson a bod y plant yn gyfarwydd ag ef, sy'n eu galluogi i ymgartrefu'n gyflym.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y safle wedi'i gynnal yn dda. Mae asesiadau risg yn cael eu cynnal er mwyn lleihau neu ddileu risgiau i'r plant.

Roedd y drysau i ystafell ddosbarth y dosbarth meithrin yn cael eu cadw dan glo i atal mynediad diawdurdod. Defnyddiwyd llyfr ymwelwyr yn nerbynfa'r ysgol ac roedd arweinwyr hefyd yn cadw cofnod o ymwelwyr ar wahân yn yr ystafell ddosbarth. Roedd y staff yn monitro glendid y toiledau yn ystod y dydd, er bod y gwaith o lanhau'r safle yn cael eu gwneud bob dydd gan lanhawyr yr ysgol a gontractiwyd. Roedd gwiriadau a mesurau diogelwch ar waith: roedd y diffoddwyr tân wedi'i gynnal yn ddiweddar a chynhaliwyd gwiriad diogelwch nwy. Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer yr ardaloedd a ddefnyddir gan y gwasanaeth er mwyn lleihau a/neu ddileu risgiau posibl i'r plant; gwnaeth y staff wirio ystafell ddosbarth y dosbarth meithrin a'r ardaloedd yn yr awyr agored yn weledol cyn i'r plant eu defnyddio.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant yn effeithiol.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn darparu safleoedd addas sy'n briodol i blant ac sy'n ysgogol. Mae'r cynllun yn hyrwyddo annibyniaeth y plant ac mae wedi'i drefnu i adlewyrchu meysydd dysgu gwahanol.

Roedd yr ystafell chwarae yn olau ac yn agored gyda digon o le ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau yn ogystal ag ardaloedd er mwyn i'r plant ymlacio a myfyrio. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod yr ardaloedd chwarae wedi'u gosod yn dda ar gyfer y plant, gan sicrhau y gallant gyrraedd yr adnoddau yn hawdd er mwyn annog dewis ac annibyniaeth. Roedd yr ardaloedd wedi'u labelu'n glir â lluniau a geiriau allweddol fel y gallai plant ddod o hyd i'r adnoddau yn hawdd; roedd y mannau storio ar uchder a oedd yn hawdd ei gyrraedd. Roedd y staff wedi rhoi gwisgoedd Nadolig ac eitemau tymhorol eraill yn yr ardal chwarae rôl er mwyn gwella eu chwarae mewn perthynas â'r pwnc. Gwelsom gyfarpar addas gan gynnwys cadeiriau, byrddau a chyfleusterau yn y toiledau plant o faint sy'n addas i blant.  Mae'r plant yn mwynhau chwarae yn yr ardal chwarae fawr a diogel yn yr awyr agored gyda digon o adnoddau ar gyfer yr awyr agored megis treiciau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i'r plant chwarae a dysgu yn llwyddiannus.

## 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar o ansawdd da i'r plant sy'n addas ar gyfer eu diddordebau ac sy'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad.

Roedd gan y plant fynediad at gelfi, cyfarpar a theganau a oedd yn addas ar gyfer eu hoedran, eu hanghenion a'u cam datblygu. Er enghraifft, cafodd amrywiaeth dda o adnoddau eu storio yn yr ardal 'messy play' a oedd yn annog creadigrwydd a datblygiad sgiliau echddygol manwl megis rhiliau cotwm, cortyn a Stickle Bricks. Cafodd yr ystafell chwarae ei rhannu yn ardaloedd ar gyfer tynnu llun/gwneud marciau, crefftau a chwarae sy'n gwneud llanast, rhifedd, ardal adeiladu, ardal amser cylch tawel/llyfrau. Gwelsom fod y teganau, yr adnoddau a'r cyfarpar yn lân iawn, o ansawdd da a'u bod mewn cyflwr da. Gwnaeth y staff gadw rhestr o'r adnoddau sydd ar gael fel eu bod yn gwybod beth oedd ar gael i'w defnyddio gyda'r plant. Cafodd y teganau a'r cyfarpar eu storio o dan orchudd i'w hamddiffyn rhag y tywydd garw. Dywedodd y staff eu bod yn gwirio'r cyfarpar yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn lân ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd yr arweinwyr yn darparu adnoddau a chyfarpar o ansawdd da a oedd wedi'u cynnal a'u cadw yn dda yn briodol.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi cofrestru'n ddiweddar a dyma'r tro cyntaf iddo gael ei arolygu. Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn awyddus i ddarparu gwasanaeth da i'r rhieni a'r plant. Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth wedi'i redeg yn dda.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn creu ethos cadarnhaol lle mae'r staff a'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â'r wybodaeth a'r cofnodion er mwyn sicrhau y caiff y rheoliadau eu bodloni'n llawn.

Dywedodd y staff eu bod gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y person cofrestredig. Roedd datganiad o ddiben y gwasanaeth yn adlewyrchiad cywir o'r hyn roedd y gwasanaeth yn ei ddarparu ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Nododd yr arweinwyr fod hyn yn cael ei ddarparu i rieni pan oeddent yn holi ynghylch defnyddio'r gwasanaeth. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ac roedd yr arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i'w hadolygu'n rheolaidd. Roedd yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar waith. Roedd y gofrestr bresenoldeb yn nodi p'un a oedd plentyn yn bresennol ond nid oedd yn nodi'r amseroedd cyrraedd a gadael fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Nid oedd yr arweinwyr wedi cael contract, ffurflenni gwybodaeth gyswllt a chaniatadau rhieni ar gyfer pob un o'r plant a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad.

Mae'r arweinyddiaeth yn ddigonol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i werthuso'r gofal y maent yn ei ddarparu er mwyn darparu gwasanaeth da.

Ni ofynnwyd i'r gwasanaeth ymgymryd ag adolygiad o ansawdd y gofal â'r rhieni, y plant na'r staff ar adeg yr arolygiad gan fod y gwasanaeth ond wedi cofrestru ym mis Chwefror 2018. Dywedodd y person â chyfrifoldeb ei bod yn ymwybodol bod angen ymgymryd â'r adolygiad hwn bob blwyddyn a bod angen cwblhau adroddiad a oedd yn adlewyrchu canlyniadau'r adolygiad hynny a bod ganddi holiaduron ar waith yn barod i'w defnyddio. Roedd y cwestiynau'n amrywio o ofyn am yr amseroedd agor i'r gweithgareddau y maent yn eu darparu a gwahoddwyd y rhieni hefyd i wneud argymhellion o ran yr hyn a fyddai'n gwella'r gwasanaeth gofal cofleidiol. Am nad oedd yr adolygiad wedi'i gwblhau eto, nid oedd cynllun gweithredu wedi'i lunio.

Roedd yr arweinwyr yn datblygu system ar gyfer casglu barn eraill er mwyn gwerthuso'r gofal y maent yn ei ddarparu.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwasanaeth wedi'i staffio gan unigolion cynnwys sy'n gallu rhoi lefel dda o oruchwyliaeth a chymorth i'r plant.

Roedd y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn meddu ar gymwysterau gofal plant priodol. Gan fod y staff hefyd yn gweithio yn yr ysgol gynradd, roedd y plant yn cael budd ohonynt am fod ganddynt hyfforddiant a phrofiad mewn lleoliad addysg. Roedd gan y person â chyfrifoldeb ffeil staff a oedd yn dangos yr holl wiriadau a'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau sy'n dangos yr ymgymerir â phroses recriwtio gadarn; roedd ffeil staff yr aelod arall o'r staff yn cael ei gadw yn swyddfa'r ysgol ond nid oedd un ar wahân wedi'i greu mewn perthynas â'r gwasanaeth gofal. Dywedodd y staff eu bod yn trafod eu gwaith a'u rolau yn rheolaidd gan eu bod yn gweithio'n agos gyda'i gilydd, er nad oedd cyfarfodydd goruchwylio wedi'u cefnogi'n ffurfiol. Nid oedd arfarniadau'r staff ar gyfer y rolau gwasanaeth gofal wedi'u cynnal eto gan nad oedd y gwasanaeth wedi bod yn weithredol am flwyddyn. Dywedodd y person â chyfrifoldeb ei bod yn ymwybodol o'r ffaith bod angen i staff gael arfarniad a oedd yn ymwneud yn unig â'r rôl fel gofalwr plentyn ac ar wahân i'w rôl addysgol. Roedd y cofrestrau presenoldeb yn dangos bod yr arweinwyr yn sicrhau eu bod yn rhedeg gwasanaeth a oedd o fewn eu hamodau cofrestredig drwy ddarparu gofal ar gyfer hyd at 20 o blant ar unrhyw un adeg.

Mae'r staff a'r adnoddau yn cael eu rheoli'n briodol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn ceisio gwybodaeth gan rieni/gofalwyr er mwyn sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu.

Roedd y staff wedi cael contractau, ffurflenni gwybodaeth a chaniatadau rhieni gan y rhan fwyaf o'r rhieni/gofalwyr yr oedd eu plant yn defnyddio'r gwasanaeth, ac eithrio un plentyn a oedd yn bresennol. Roedd gan y staff fanylion cyswllt a gwybodaeth sylfaenol am y plentyn, ond nid oedd unrhyw gontract wedi'i lofnodi na chaniatâd rhieni, megis ar gyfer gofal meddygol mewn argyfwng. Dywedodd y plant eu bod yn cyfleu negeseuon ar lafar gyda rhieni/gofalwyr; gwelsom, ar adeg casglu'r plant fod y staff yn rhoi adborth cyffredinol ar ymddygiad eu plentyn yn ystod y sesiwn. Roedd y rhyngweithio hwn yn dangos bod y staff wedi meithrin cydberthnasau da â'r rhieni. Dywedodd rhieni dau blentyn a oedd yn defnyddio’r gwasanaeth eu bod yn teimlo bod yn staff yn hawdd mynd atynt a'u bod yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir. Er bod y gwasanaeth yn wasanaeth ar wahân, roedd y clwb cofleidiol hefyd yn rhan wirioneddol o gymuned yr ysgol o ganlyniad i'w lleoliad a'r staff. Roedd hyn yn sicrhau bod gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn yn yr ysgol.

Mae'r staff yn datblygu cydberthnasau da â'r rhieni/gofalwyr.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell fod yr arweinwyr yn gwneud y canlynol:

- ystyried ffyrdd y gellir darparu cyfleoedd pellach i'r plant ddatblygu eu sgiliau hunangymorth, megis yn ystod amser byrbryd;
- cadw cofnodion mewn perthynas â chyfarfodydd goruchwylio;
- sicrhau pan gaiff meddyginiaeth ei rhoi i blentyn y gofynnir i rieni pryd y cafodd y dogn olaf ei roi a sicrhau y caiff hyn ei gofnodi ar y ffurflen feddyginiaethau;
- sicrhau bod y staff yn cael contractau, ffurflenni gwybodaeth a slipiau caniatâd cyn i'r plant ddechrau yn y gwasanaeth;
- gofyn am unrhyw gopïau o gofnodion/gwiriadau gwaith cynnal a chadw a wnaed ar ardaloedd a ddefnyddir gan y gwasanaeth ar gyfer eu cofnodion eu hunain;
- sicrhau bod ffeiliau pob aelod o'r staff ar gael i'w harolygu.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd yr arolygiad dros gyfnod o ddwy awr ar 16 Tachwedd 2018. Cynhaliodd un arolygydd yr arolygiad hwn a oedd yn rhan o amserlen a drefnwyd ymlaen llaw. Rhoddwyd adborth ar wahân ar 23 Tachwedd 2018. Gwnaethom y canlynol:

- gwnaethom arsylwadau cyffredinol ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chynnal gwaith arsylwi gan ddefnyddio adnodd SOFI 2;
- cynnal sgyrsiau â rhieni dau blentyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chafodd holiadur ei adael er mwyn i'r rhieni eraill ei gwblhau a'u hanfon atom, os oeddent yn dymuno.
- gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth yn ogystal ag adolygu unrhyw holiaduron arolygu a gwblhawyd gan y staff;
- edrych ar gofnodion/dogfennau gan gynnwys: y gofrestr presenoldeb, contractau'r plant, polisïau a gweithdrefnau, cofnodion damweiniau a digwyddiadau, cofnodion meddyginiaeth, datganiad o ddiben y gwasanaeth;
- cynnal arolygiad gweledol o'r ystafelloedd a'r ardaloedd a ddefnyddir gan y gwasanaeth.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Unigolyn Cyfrifol | Alison Williams |
| Person â chyfrifoldeb | Bethan Bibbs |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 20 |
| Ystod oedran y plant | 3 i 4 oed |
| Oriau agor | 12.45pm i 3.15pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 16 Tachwedd 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg pobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol'. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |